# EIN HEDDLU
# EIN CYMUNED


## Adroddiad Arolwg Blynyddol

## 2024

## CYNNWYS


**1 - Crynodeb o'r arolwg....................1**
**2 - Crynodeb o'r canfyddiadau....................4**
Barn am blismona lleol a phrofiadau ohono....................4
Themâu sy'n codi o adborth yr ymatebwyr....................6
Cyfraniadau at Braesept yr Heddlu....................10
**3 - Casgliad....................14**
**6 - Demograffeg....................15**


De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales



# 1. Crynodeb o'r arolwg

## Cyfnod arolygu

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o chwe wythnos, rhwng 6 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2023.

Tachwedd 6 → Rhagfyr 22

## Survey options

Gallai pobl gymryd rhan drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- Digitally
- Pleidlais
- Copi Papur
- Yn Gymraeg
- Fersiwn Hawdd ei Deall

## Cyfradd ymateb

**Cwblhaodd 1,599 o bobl yr arolwg**

Cynnydd o 15 ymateb o'i gymharu â 2022

## Dulliau hyrwyddo'r arolwg:

Hyrwyddwyd yr arolwg mewn gwahanol ffyrdd, gan ystyried dulliau ar-lein ac all-lein. Roedd y rhain yn cynnwys:

### Wyneb i Wyneb

7 digwyddiad ledled De Cymru

### Cafodd ei hyrwyddo ar-lein drwy:

- Ein gwefan
- Cyfryngau cymdeithasol
- De Cymru yn Gwrando (De Cymru yn Gwrando / South Wales Listens)

### Rhanddeiliaid

Cafodd ei ddosbarthu gan rhanddeiliaid i sefydliadau, e.e. awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a thrydydd sector, er mwyn ein helpu i ehangu ein cyrhaeddiad i gymunedau.

### Papurau newydd lleol

Cafodd ei hysbysebu yn South Wales Evening Post a South Wales Echo

# Ymatebion

**Cwblhaodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (98%) fersiwn Saesneg yr arolwg.**

**Cwblhaodd 1.2% y fersiwn Hawdd ei Deall.**


**Cwblhaodd 0.3% y fersiwn Gymraeg.**

**Roedd 1,571 o'r ymatebwyr yn byw yn Ne Cymru.**

**Roedd 28 o'r ymatebwyr yn ymweld â De Cymru at ddibenion gwaith neu hamdden.**

# Ymatebion fesul Sir

Mae'r map isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a oedd yn byw ym mhob sir. Gan ymatebwyr o Gaerdydd y cafwyd y nifer uchaf o ymatebion, sef 385 (24.5%), yna Pen-y-bont ar Ogwr, sef 368 (23.4%). Gan ymatebwyr o Ferthyr Tydfil y cafwyd y nifer isaf o ymatebion sef 108 (6.9%). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod hyn yn gynnydd o +135% yn nifer yr ymatebion gan breswylwyr o Ferthyr o gymharu â 2022.




# Cyrhaeddiad ac ymgysylltiad yr arolwg

## Wyned i Wyneb

**Trefnodd aelodau o'r tîm stondinau dros dro ym mhob Sir:**

- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
- Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg
- Asda Coryton, Caerdydd
- Canolfan Siopa Aberafon
- Canolfan Siopa St Tudful
- Canol Tref Pontypridd




Dosbarthwyd copïau papur o'r arolwg.

Codi ymwybyddiaeth







Rhannodd pobl eu hadborth drwy bleidlais




Dosbarthwyd 100s o daflenni gwybodaeth i bobl

## Cyfryngau Cymdeithasol




Cafodd ein postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol eu harddangos i ddefnyddwyr **63,894** o weithiau



Ymgysylltwyd â'n postiadau **663** o weithiau

In YourArea


Hysbysebwyd ar Wales Online

Dangoswyd yr hysbyseb **12,263** o weithiau

**71** gliciau ar yr hysbyseb

# Sut y daeth pobl i wybod am yr arolwg

Er mwyn ein helpu i ddeall pa ddulliau targedu oedd fwyaf llwyddiannus ac a gafodd yr effaith fwyaf, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr ddweud wrthym sut y daethant i wybod am yr arolwg hwn. Dywedodd dros draean (38%) o'r ymatebwyr eu bod wedi cael gwybod am yr arolwg drwy e-bost, a dywedodd 25% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael gwybod amdano drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r siart isod yn dangos y dulliau gwahanol y daeth yr ymatebwyr i wybod am yr arolwg.



# 2. Crynodeb o'r canfyddiadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â Heddlu De Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Roedd 45%** o'r ymatebwyr wedi dod i gysylltiad uniongyrchol ag ef.




**Nid oedd 55%** wedi dod i gysylltiad uniongyrchol ag ef.

## Barn am blismona lleol a phrofiadau ohono

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â'r datganiadau isod am eu heddlu lleol yn Ne Cymru.

### Mae ein heddlu lleol yn trin pobl yn deg


Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52%) yn cytuno mewn rhyw ffordd eu bod yn teimlo bod eu heddlu lleol yn trin pobl yn deg.




> "Mae ein timau heddlu lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymweld â'n hyb cymunedol yn rheolaidd, gan fod yn bresenoldeb cefnogol i ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y bobl ifanc hefyd"
>
> "Mae'n ymateb i achosion o darfu ar ein stryd yn eithaf cyflym ac yn ymchwilio i sefyllfaoedd mewn ffordd sensitif a chwrtais"

### Mae ein swyddogion heddlu lleol yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atyn nhw


Roedd dros hanner yr ymatebwyr (59%) yn cytuno mewn rhyw ffordd eu bod yn teimlo bod eu swyddogion heddlu lleol yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atyn nhw.




> "Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn wych. Maen nhw'n cefnogi digwyddiadau cymunedol a bob amser yn hawdd mynd atyn nhw."
>
> "Maen nhw'n garedig ac yn hawdd iawn mynd atyn nhw. Maen nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud yr ardal yn lle gwell"
>
> "Rwy'n gweld eu presenoldeb, maen nhw'n gwneud ymdrech i ddweud 'helo' a chodi llaw ar fy mechgyn ifanc, a bob amser yn ymddangos yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atyn nhw"

## Rwy'n parchu fy heddlu lleol

Roedd bron tri chwarter yr ymatebwyr (71%) yn cytuno mewn rhyw ffordd eu bod yn parchu eu heddlu lleol.





**"Maen nhw'n ceisio ymgysylltu â'r gymuned ar lefel ddynol, ac mae'n ymddangos bod cynnal digwyddiadau er mwyn siarad mwy â chymunedau lleol yn helpu i wneud hynny"**

**"Maen nhw'n gwneud gwaith gwych mewn amgylchiadau anodd. Does dim digon ohonyn nhw, dydyn nhw ddim yn cael eu talu digon, ac maen nhw'n gorfod gwneud gwaith ychwanegol oherwydd bod gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd dan straen enfawr"**

## Rwy'n ymddiried yn ein heddlu lleol.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52.4%) yn cytuno mewn rhyw ffordd eu bod yn ymddiried yn eu heddlu lleol.





**"Mae'r Heddlu yn cyflawni pethau da yn fy ardal leol. Ar y cyfan, mae'r gymuned leol yn ymddiried yn swyddogion yr heddlu ac yn eu parchu. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn benodol yn cynnig gwerth gwych am arian"**

**"Fel grŵp cymunedol, mae ein Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn ymweld â ni'n rheolaidd. Mae hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth o fewn y grŵp"**

## Mae ein Heddlu lleol yn gwneud gwaith da yn ein hardal.

Roedd traean o'r ymatebwyr (35%) yn cytuno mewn rhyw ffordd bod eu heddlu lleol yn gwneud gwaith da yn eu hardal.





**"Rwyf wedi gweld swyddogion yn mynd at bobl yn y gymuned ambell waith, ac mae hyn yn bwysig iawn er mwyn cael adborth ac arweiniad ar faterion sy'n peri pryder. Maen nhw wedi gweithredu'n gyflym ac wedi rhoi tawelwch meddwl ynglŷn â materion rwyf wedi tynnu eu sylw atyn nhw"**

**"Mae swyddogion cymunedol lleol yn rhoi o'u hamser i fynd i lawer o'r grwpiau lleol er mwyn rhoi cyfle i bobl siarad â nhw mewn lleoliad anffurfiol"**

## Mae ein heddlu lleol yn deall pryderon lleol

Roedd traean o'r ymatebwyr (35%) yn cytuno mewn rhyw ffordd bod eu heddlu lleol yn deall pryderon lleol.




> "Galwodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu heibio i gyflwyno ei hun a chael sgwrs. Roedd yn gyfeillgar ac yn ymddangos fel pe bai'n deall y pryderon lleol, a rhoddodd hynny dawelwch meddwl i mi."
>
> "Mae'r tîm plismona yn y gymdogaeth yn deall yr ardal leol yn dda ac yn gweithio'n galed drwy raglenni allgymorth i gefnogi pobl o bob demograffeg"

## Themâu sy'n codi o adborth yr ymatebwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'anghytuno'n gryf' neu'n 'anghytuno' â'r datganiadau uchod ddweud mwy wrthym am eu hatebion. Roedd rhai themâu allweddol yn amlwg o'r sylwadau a rannwyd gan yr ymatebwyr. Maent wedi'u crynhoi isod:

### Presenoldeb gweladwy



Dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd presenoldeb gweladwy ar lefel gymunedol. O ganlyniad, roedd llawer yn teimlo ei bod yn "anodd gwybod" a oedd eu swyddogion lleol yn gwneud gwaith da. Er bod rhai yn ddiolchgar am bresenoldeb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrôl, dywedodd ymatebwyr eu bod yn poeni nad oedd "digon o bresenoldeb neu unrhyw bresenoldeb o gwbl gyda'r nos".

> Nid wyf yn credu bod ganddynt bresenoldeb ar y strydoedd, felly sut y gellir eu parchu ac ymddiried ynddynt i ddeall pryderon lleol.

> Ni ydym byth yn gweld Swyddogion yr Heddlu ar batrôl yn ein hardal. Sut y gallent fod yn ymwybodol o bryderon lleol os nad ydynt yn gweithio yn yr ardal leol ac yn cadw mewn cysylltiad â'r gymuned leol?

> Nid oes gennyf syniad beth mae'r heddlu yn ei wneud yn fy ardal. Nid wyf wedi dod i gysylltiad â'r heddlu o gwbl ac nid wyf yn ymwybodol o bresenoldeb yr heddlu yn fy ardal.

### Y Camau a Gymerwyd



Cyfeiriodd sawl ymatebydd at ei brofiad personol o roi gwybod am ddigwyddiadau i'r heddlu. Eglurodd yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw gyswllt dilynol mewn ymateb i'w hadroddiad, neu nad oeddent wedi cael diweddariad ar eu hymchwiliad. Roedd rhai hefyd yn teimlo nad oedd unrhyw ddiben rhoi gwybod am fân droseddau" gan na fyddai dim yn cael ei wneud neu na fyddent "yn cael eu cymryd o ddifrif".

> Byddai penderfyniadau i beidio â chymryd camau pellach yn cael eu rhannu â'r dioddefwr heb esboniad, gan olygu nad oedd gan y dioddefwr unrhyw hyder yn yr heddlu o gwbl.

> Mae diffyg ymateb i alwadau am gymorth ac mae apwyntiadau yn aml yn cael eu canslo neu eu hoedi'n ddifrifol. Mae hyn yn arwain at ddiffyg hyder bod yr heddlu lleol yn trin pobl o ddifrif.

> Nid wyf yn cael gwybod yn llawn pa gam sydd wedi cael eu cymryd ac nid yw hyn yn dderbyniol. Mae'r heddlu wedi cael gwybod am bopeth sydd wedi digwydd, ond eto ni cheir adborth.

## Ymddiriedaeth a Hyder



Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at eu profiadau negyddol o roi gwybod i Heddlu De Cymru am ddigwyddiad. Roedd llawer yn teimlo bod y ffaith nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd mewn ymateb i'w hadroddiad wedi "llygru" eu barn am yr heddlu. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt "unrhyw ffydd" bod yr heddlu'n trin pobl yn deg ac roeddent yn "wyliadwrus ac yn ddrwgdybus o'r heddlu" oherwydd adroddiadau am hiliaeth a thrais.

> Rwyf wedi fy syfrdanu o glywed am yr achosion o hiliaeth a thrais gan yr heddlu, yn enwedig tuag at bobl Ddu yn y ddalfa. Mae hiliaeth yn broblem wirioneddol yng Nghymru ac mae plismona'n cyfrannu at hynny. Er nad wyf wedi wynebu hiliaeth yn bersonol, mae gwybod bod eraill wedi ei wynebu yn tanseilio fy ymddiriedaeth yn yr heddlu.

> Nid wyf yn trafferthu cysylltu â'r heddlu os oes gennyf broblem oherwydd does dim byd byth yn cael ei wneud. Nid wyf yn gweld plismyn yn cerdded o gwmpas. Does gen i ddim hyder o gwbl ynddyn nhw.

> Er fy mod yn gwerthfawrogi bod yn rhaid targedu adnoddau tuag at y troseddau mwyaf difrifol, mae diffyg ymateb i alwadau am gymorth, ac yn aml mae apwyntiadau'n cael eu canslo neu eu hoedi'n ddifrifol. Mae hyn yn arwain at ddiffyg hyder bod yr heddlu lleol yn trin pobl o ddifrif.

## Diffyg adnoddau



Nododd rhai o'r ymatebwyr er eu bod yn teimlo bod yr heddlu'n gwneud "gwaith da", eu bod hefyd teimlo bod diffyg adnoddau. Dywedodd yr ymatebwyr fod hyn yn cael effaith negyddol ar eu hymddiriedaeth yn yr heddlu i ymateb i ddigwyddiadau a mynd i'r afael â throseddu yn effeithiol ac yn effeithlon.

> Mae prinder staff difrifol ac nid oes ganddynt yr adnoddau i ymchwilio i droseddau nac i fod yn bresenoldeb gweladwy.

> Er fy mod yn parchu swyddogion heddlu unigol ac yn credu eu bod yn deg ac yn deall pryderon lleol, rwy'n teimlo na allant wneud dim, ac oherwydd adnoddau cyfyngedig mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu galwadau heb blismona'r hyn sy'n cael ei ystyried yn droseddau llai.

> Mae'n ymddangos nad oes adnoddau ar gael i ddelio â'r pethau sy'n effeithio ar fywydau pobl mewn gwirionedd, fel bwrgleriaeth, dwyn beiciau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Yr hyn y mae ymatebwyr yn teimlo bod Heddlu De Cymru yn ei wneud yn dda

## Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu



Canmolodd nifer o'r ymatebwyr waith eu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol gan ddweud eu bod nhw'n "wych", "yn hawdd mynd atynt" ac yn "meithrin cydberthnasau da" yn eu cymuned. Nododd llawer ohonynt eu bod yn aml yn gweld Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrôl a bod eu presenoldeb yn "dawelwch meddwl" ac yn "atal ymddygiad gwael".

> Mae gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bresenoldeb gweladwy ac maent yn ymgysylltu'n dda â'r gymuned.

> Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn wych, yn garedig ac yn hawdd mynd atynt. Maent yn parhau i drefnu cyfarfodydd PACT yn yr ardal ac mae eu safonau'n uchel. Maent yn gyflogeion gwych ac mae plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn eu parchu gan eu bod wedi rhyngweithio â nhw drwy gydol eu blynyddoedd yn yr ysgol.

> Mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhagweithiol iawn. Rwy'n teimlo y gallaf gysylltu â nhw gyda phroblem.

## Ymgysylltu



Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod eu heddlu lleol yn ceisio “cadw'r ardal yn ddiogel” ac yn “gwneud eu gorau i ddatrys y materion”. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn ddiolchgar am gael diweddariadau mewn perthynas â digwyddiadau lleol a chyngor ar atal troseddu.

> “Galwodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu heibio i gyflwyno ei hun a chael sgwrs. Roedd yn gyfeillgar ac yn ymddangos fel pe bai'n deall y pryderon lleol, a rhoddodd hynny dawelwch meddwl i mi.”

> “Maent yn ymdrechu i gwrdd a thrafod pryderon lleol ag aelodau o fy nghymuned wledig sy'n aml yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain. Mae gan y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth lleol ymdeimlad gwirioneddol o sut beth yw bywyd mewn ardaloedd gwledig ac mae'n ceisio mynd i'r afael â phryderon gyda'r adnoddau prin sydd ganddo.”

> “Cwrdd â'r cyhoedd mewn canolfannau lleol y mae pobl yn ymweld â nhw. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i bobl weld ochr ddynol plismona a chael y wybodaeth ddiweddaraf.”

## Cyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt



Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod eu timau plismona lleol yn “gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt” a'u bod yn gwneud yr ymdrech i ryngweithio â phobl. Roedd y rhyngweithio cadarnhaol hwn gan swyddogion wedi gwella hyder y bobl i siarad â'r heddlu a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

> “Maent yn hawdd iawn mynd atynt ac yn garedig. Maen nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud yr ardal yn lle gwell.”

> “Rwy'n gweld eu presenoldeb, maen nhw'n gwneud ymdrech i ddweud 'helo' a chodi llaw ar fy mechgyn ifanc, a bob amser yn ymddangos yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atyn nhw.”

> “Gwych, hawdd mynd atynt. Maent yn ymateb yn dda i bryderon ac yn arfer presenoldeb sy'n effeithiol.”

## Ymateb i faterion lleol



Dywedodd rhai o'r bobl eu bod yn teimlo bod eu swyddogion yn “ymateb cystal ag y gallant” ac yn “eithaf cyflym” i faterion lleol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, e-sgwteri ac adroddiadau am helyntion.

> “Rwy'n teimlo eu bod yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol lleol ac ehangach fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.”

> “Mae'n ymateb i achosion o darfu ar ein stryd yn eithaf cyflym ac yn ymchwilio i sefyllfaoedd mewn ffordd sensitif a chwrtais.”

> “Maent yn dechrau cael rheolaeth ar y troseddu yn yr ardal.”


## Yr hyn y mae'r ymatebwyr yn teimlo y gallai Heddlu De Cymru ei wneud yn well

### Mwy o bresenoldeb gweladwy



Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai eu heddlu lleol fod yn “fwy gweladwy“ a “chwarae rôl fwy gweithredol“ yn eu cymuned. Roedd rhai ohonynt hefyd yn teimlo y dylai fod “presenoldeb rhagweithiol gan yr heddlu“ sy'n targedu ardaloedd lle ceir lefelau uchel o droseddu, yn hytrach nag “ymateb pan fydd trosedd wedi digwydd“. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai fod mwy o adnoddau ar gyfer patrolau nos, oherwydd yn aml, dyma'r adeg pan oedd ymddygiad troseddol a digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd.

### Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau'n ymwneud â chyffuriau



Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen cymryd ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau'n ymwneud â chyffuriau “yn fwy o ddifrif” ac y gellid “eu hatal drwy ddwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif”. Roedd pobl hefyd yn teimlo y dylai'r Heddlu “wrando a gweithredu ar y wybodaeth sy'n cael ei rhoi am gyffuriau”.

### Mwy o gamau gorfodi ynghylch e-sgwteri ac e-feiciau



Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y defnydd anghyfreithlon o feiciau a sgwteri trydan. Roeddent yn teimlo “mai dim ond mater o amser ydyw nes eu bod yn achosi damwain” ac yn aml yn teimlo eu bod yn “codi ofn” ac yn “beryglus" pan fyddent yn cael eu defnyddio ar balmentydd. Teimlai'r ymatebwyr “y gellid gwneud mwy i orfodi cyfreithiau traffig ffyrdd yn erbyn e-sgwteri”.

### Cefnogi Dioddefwyr



Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr. Roedd llawer yn teimlo y dylai'r heddlu “gymryd materion o ddifrif” a meddu ar ddealltwriaeth well o'r “effaith y mae aflonyddwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chael ar ddioddefwyr”. Dywedodd rhai ei bod yn bwysig bod swyddogion yn cael “mwy o hyfforddiant ar gefnogi dioddefwyr troseddau, e.e. cymorth a thawelwch meddwl a phwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr”. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr fod angen i swyddogion “wella'r broses o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr”.

### Gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned




Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen i'r heddlu feddu ar “ddealltwriaeth well o brofiadau ac anghenion cymunedau lleiafrifol”. Roedd eraill yn teimlo bod angen i swyddogion feddu ar “ddealltwriaeth well o sefyllfaoedd a sut y dylid trin achosion er mwyn rhoi'r cymorth cywir”.

## Cyfraniadau at Braesept yr Heddlu

Er mwyn cynorthwyo penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ystyried yr opsiynau ar gyfer gosod praesept yr heddlu 2024/25, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor gefnogol oeddent i'r opsiynau a oedd yn cael eu hystyried gan y Comisiynydd. Mae'r siart isod yn dangos yr ymatebion ar gyfer pob opsiwn.

### Cynnydd o tua £2 y mis

Roedd bron hanner yr ymatebwyr (48.5%) yn cefnogi cynnydd o £2.





**"Fel pensiynwr, nid yw'r cynnydd yn rhywbeth y gallaf ei fforddio ond rwy'n deall pam mae angen rhywfaint o gynnydd"**

**"Rwy'n credu y dylid cadw unrhyw gynnydd i isafswm er mwyn cefnogi teuluoedd sydd eisoes yn wynebu pwysau ariannol"**


**"Rwy'n cefnogi'r cynnydd, ond rwyf hefyd yn ymwybodol bod gormod o gartrefi'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw cynyddol. Byddai cadw'r cynnydd i isafswm yn helpu'r rhai sy'n wynebu anawsterau"**

Dywedodd dros hanner o ymatebwyr (52%) o Gaerdydd, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe y byddent yn cefnogi cynnydd o £2 y mis. Mae'r graff isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob sir.




## Cynnydd o tua £2.25 y mis

Roedd bron traean o'r ymatebwyr (32.8%) yn cefnogi cynnydd o £2.25.





> "Rwy'n cytuno y byddai cynyddu buddsoddiad yn helpu a byddwn yn fodlon talu mwy, ond mae'n rhaid i ni gael gwerth am arian, a dyw hynny ddim yn digwydd ar hyn o bryd"
>
> "Rwy'n byw mewn ardal gymdeithasol ddifreintiedig lle nad oes gan bobl yr arian i gyfrannu mwy. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i addasu'r ffordd mae arian yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd"
>
> "Mae chwyddiant wedi bod yn ffactor mawr i bawb felly mae disgwyl cynnydd rhesymol yn dderbyniol"

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr o Ferthyr Tydfil, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr na fyddent yn cefnogi cynnydd o £2.25 y mis. Mae'r graff isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob sir.




## Cynnydd o tua £2.75 y mis

Roedd llai na thraean o'r ymatebwyr (27.7%) yn cefnogi cynnydd o £2.75.





> **"Pwysau cyson ar deuluoedd, costau cynyddol, a gwaethygu sefyllfa'r rhai sy'n agored i niwed. Dylid defnyddio cyllidebau'n fwy creadigol, ac edrych ar ffyrdd o wneud y mwyaf o arian, fel y mae pawb yn ei wneud"**
>
> **"Rwy'n gallu fforddio hyn felly byddwn yn fodlon ei dalu, cyhyd â'i fod yn golygu bod swyddogion yr heddlu yn gallu gwneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac, yn fwyaf pwysig, bod modd dangos hyn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn parhau i gefnogi hyn os na fyddai unrhyw welliannau amlwg."**
>
> **"Dylai'r llywodraeth fod yn ariannu gwasanaeth yr heddlu. Ni ddylai'r cyfrifoldeb am ariannu gwasanaeth brys ddisgyn ar ysgwyddau cymuned sydd eisoes dan straen ariannol, nid ydym yn gallu fforddio ein biliau ein hunain"**

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr o Ferthyr Tydfil, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr na fyddent yn cefnogi cynnydd o £2.75 y mis. Mae'r graff isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob sir.



## Canlyniadau ar draws yr holl fandiau cynnydd arfaethedig

Ar y cyfan, roedd bron hanner yr ymatebwyr (46%) yn erbyn y cynnydd arfaethedig yn y praesept.





"Unwaith eto, rwy'n credu bod yr heddlu yn treulio mwy o amser mewn ardaloedd gwahanol, nid yw'n ymddangos bod dim yn cael ei wneud yma felly pam ddylwn i dalu mwy? Yn ogystal â theimlo'n ddiogel, rwyf am i fy mhlant a fy wyrion ac wyresau fod yn ddiogel go iawn"

"Fel pensiynwyr, rydym yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'n hymrwymiadau, a gyda phris popeth yn codi, mae'n anodd gwybod ble rydym yn mynd i ddod hyd i unrhyw arian ychwanegol"

"Pwysau cyson ar deuluoedd, costau cynyddol, a gwaethygu sefyllfa'r rhai sy'n agored i niwed. Dylid defnyddio cyllidebau'n fwy creadigol, ac edrych ar ffyrdd o wneud y mwyaf o arian, fel y mae pawb yn ei wneud"

## Themâu allweddol sy'n deillio o'r adborth mewn perthynas â chyfraniadau at y praesept

### Costau Byw




Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi dweud y byddent yn gallu fforddio cynnydd bach, roeddent yn poeni y byddai'r cynnydd arfaethedig uwch "yn ormod i lawer". Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y straen y byddai unrhyw gynnydd ychwanegol yn ei roi ar gyllideb bresennol eu haelwyd. Mynegodd llawer hefyd nad oedd cyfraddau chwyddiant yn cyfateb i godiadau cyflog ac, o ganlyniad, eu bod yn rhoi pwysau sylweddol ar eu sefyllfa ariannol.

"Mae hyd yn oed y cynnydd lleiaf yn sylweddol uwch na'r gyfradd chwyddiant gyfredol Felly, mae'n cael effaith negyddol ar gostau byw preswylwyr lleol."

"Oherwydd yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a'r argyfwng costau byw, nid wyf yn credu y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu fforddio unrhyw gynnydd gan eu bod eisoes yn wynebu anawsterau ariannol. Rwy'n credu y dylai llywodraeth y DU ariannu dros hanner y cyllid sydd ei angen yng Nghymru."

"Ni all ein haelwyd fforddio talu mwy. Rydym yn deall bod plismona yn bwysig, ond os nad oes gennym yr arian, allwn ni ddim ei gynnig."

## Y Gwasanaeth a ddarperir



Er bod rhai o'r ymatebwyr yn canmol y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu, gan nodi ei fod yn "wasanaeth hanfodol i'w gynnal", dywedodd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r heddlu fod yn "gwella ei berfformiad" a dim ond pe bai "gwasanaethau'n gwella" a "mwy o swyddogion ar batrôl" y byddent yn hapus i gefnogi cynnydd.

> **Nid wyf am dalu mwy na'r hyn rwy'n ei dalu nawr, gan fod presenoldeb ein heddlu yn gyfyngedig iawn.**

> **Rwyf am helpu Gwasanaeth yr Heddlu i weithredu mor effeithlon â phosibl oherwydd rwy'n teimlo bod troseddau ac ymddygiad troseddol yn cynyddu.**

> **Nid wyf yn gwybod am beth rwy'n talu. Nid wyf byth yn gweld swyddogion yr heddlu o gwmpas. Mae gwaith yr heddlu bob amser yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol.**

## Effeithlonrwydd a gwerth am arian



Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnydd pe bai “gwerth am arian y gellir ei ddangos”. Fodd bynnag, dywedodd llawer eu bod yn teimlo nad yw'r gyllideb gyfredol “yn cael ei gwario'n ddoeth” a bod "angen cynnal adolygiad o wariant ac arbedion effeithlonrwydd" cyn gwneud unrhyw gynnydd. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod creu rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ychwanegu "cost bellach" ac nid oeddent yn glir sut roedd y rôl o fudd i'r gymuned.

> **Mae angen cynnal adolygiad o wariant ac arbedion effeithlonrwydd fel bod yr arian sydd eisoes wedi'i gasglu yn ganolog ac yn lleol yn cael ei wario'n well.**

> **Efallai y byddai cael gwared ar Gomisiynydd yr Heddlu a'i staff yn arbed arian. Nid wyf yn credu bod neb yn gwybod beth mae'r rôl yn ei wneud.**

> **Gellir gwneud arbedion yng ngwasanaeth yr heddlu, yn union fel y mae aelwydydd yn gorfod eu gwneud. Arbed trydan drwy ddiffodd pethau, troi'r gwres i lawr, negodi bargeinion gwell ar wasanaethau fel ffonau, ac ati.**

## Casgliad

Hoffwn ddiolch i'r holl gyfranogwyr a gymerodd ran yn arolwg ‘Ein Heddlu, Ein Cymuned’ eleni.


Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn helpu'r Comisiynydd i ystyried yr opsiynau o ran lefel y praesept ar gyfer 2024/25. Bydd y Comisiynydd yn cyflwyno ei gynigion ar gyfer y praesept a chanlyniadau'r arolwg hwn i Banel yr Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2024.


Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am ddwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyfrif.


Bydd yr adborth a gasglwyd hefyd yn cael ei drafod â Heddlu De Cymru a sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw, er mwyn ystyried sut y byddwn yn adolygu'r themâu a godwyd.


# Demograffeg


Er mwyn ein helpu i ddeall y cymunedau yr oeddem yn eu cyrraedd, gofynnwyd i drigolion ddarparu gwybodaeth ddienw amdanynt eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd yn orfodol i ymatebwyr ateb y cwestiynau hyn. Amlinellir dadansoddiad demograffig yr ymatebwyr a rannodd y wybodaeth hon gyda ni isod:




| Ethnigrwydd | Disgrifiad | Rhif |
| --- | --- | --- |
| **White** | White - British / English / Welsh / Scottish | 1372 |
| | White - Any other White background | 28 |
| | White - Irish | 8 |
| | Any other White background | 2 |
| **Unknown** | Prefer not to say | 83 |
| | Not Answered | 22 |
| | Other/ no specific answer | 15 |
| | Prefer to self-define | 8 |
| | British | 1 |
| **Ethnic Minority** | Mixed - White and Asian | 11 |
| | Mixed - British / English / Welsh / Scottish | 6 |
| | Asian - Indian | 6 |
| | Asian - British / English / Welsh / Scottish | 5 |
| | Mixed - Any other Mixed / Multiple ethnic background | 4 |
| | Other - Arab | 4 |
| | Mixed - White and Black Caribbean | 4 |
| | Asian - Pakistani | 3 |
| | Black - British / English / Welsh / Scottish | 3 |
| | Black - African | 3 |
| | Black - Caribbean | 2 |
| | Italian/English | 1 |
| | Other - Gypsy Roma Traveller | 1 |
| | Asian - Any other Asian background | 1 |
| | Kurdish | 1 |
| | Dual Danish/ British | 1 |
| | Mauritian | 1 |
| | Asian - Chinese | 1 |
| | African from central Africa | 1 |
| | Corellian | 1 |
| **Cyfanswm** | | **1599** |